**EITEM AR YR AGENDA: 11**

**PANEL GWEITHREDOL**
**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**16eg Gorffennaf 2012**

**AMSERLEN AR GYFER DATBLYGU'R CYNLLUN GWELLA**

**Adroddiad gan Shân Morris, Rheolwr Cynllunio Corfforaethol**

## Diben yr Adroddiad

1 Cyflwyno, er mwyn cael cytundeb, amserlen ar gyfer llunio a chyhoeddi Cynllun Gwella yr Awdurdod 2013-14.

## Cyflwyniad

2 Mae Gorchymyn Awdurdodau Tân ac Achub (Cynlluniau Gwella) (Cymru) 2012 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau gwella Cymreig gytuno ar Gynlluniau Gwella cyn gynted ag y bo'n rhesymol yn ymarferol ar ôl 31 Rhagfyr cyn y flwyddyn ariannol y mae'n ymwneud â hi.

3 Y disgwyliad yw y caiff ystyr hyn ei ddehongli, yn ymarferol, fel ei gyhoeddi erbyn 31 Mawrth fan bellaf.

## Gwybodaeth

4 Er mwyn ateb y disgwyliad hwnnw, mae angen cwblhau sawl cam datblygu a gwneud penderfyniadau amserol.

5 I ddiben cymeradwyo, mae Atodiad 1 yn nodi amserlen arfaethedig ar gyfer cwblhau'r camau hynny.

## Argymhelliad

6 Bod yr aelodau'n nodi ac yn cymeradwyo'r amserlen arfaethedig ar gyfer datblygu Cynllun Gwella yr Awdurdod 2013-14.

**ATODIAD 1**

## Amserlen Gryno
## Llunio'r Cynllun Gwella 2013-14

| Dyddiad | Camau gweithredu |
|---|---|
| 16 Gorffennaf 2012 | Y Panel Gweithredol yn cytuno ar aelodaeth Gweithgor y Cynllun Gwella (CG). |
| 23 Gorffennaf 2012 | Cyfarfod cyntaf Gweithgor y CG i ddatblygu amcanion ar gyfer 2013-14. |
| 13 Awst 2012 | Ail gyfarfod Gweithgor y CG i ddatblygu amcanion 2013-14. |
| 17 Medi 2012 | Y Panel Gweithredol yn ystyried argymhellion Gweithgor y CG o ran amcanion 2013-14. |
| 15 Hydref 2012 | Yr Awdurdod Tân ac Achub llawn yn ystyried argymhellion y Panel Gweithredol, ac yn cymeradwyo'r Amcanion Gwella drafft ar gyfer cynnal ymgynghoriad cyhoeddus.<br><br>Penderfynu ar gyfnod yr ymgynghoriad - 10 wythnos = 24/12/12.<br>12 wythnos = 7/1/13. |
| 19 Tachwedd 2012 | Y Panel Gweithredol yn ystyried cyllideb ddrafft 2013-14. |
| 17 Rhagfyr 2012 | Yr Awdurdod Tân ac Achub llawn yn ystyried cyllideb ddrafft 2013-14. |
| 4 Chwefror 2013 | Y Panel Gweithredol yn ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad, ac yn cwblhau'r CG yn derfynol yng nghyd-destun cyllideb 2013-14, ac yn gwneud argymhellion i'r Awdurdod Tân ac Achub. |
| 18 Mawrth 2013 | Yr Awdurdod Tân ac Achub llawn yn rhoi cymeradwyaeth derfynol i'r CG i'w gyhoeddi erbyn 31 Mawrth 2013. |